

Croeso i'n cylchlythyr sy'n dod â'r newyddion diweddaraf i chi gan Uchelgais Gogledd Cymru yn cynnwys Cynllun Twf Gogledd Cymru. Os hoffech dderbyn mwy o wybodaeth am ein gwaith, cysylltwch â ni ar gwyb@uchelgaisgogledd.cymru.

## AGOR ADEILAD PEIRIANNEG ARLOESOL YN SWYDDOGOL



Mae CanfodAu, y Ganolfan newydd ar gyfer Peirianneg ac Arloesi, wedi agor yn swyddogol ym Mhrifysgol Wrecsam.

Dyma prosiect adeiladu cyntaf Cynllun Twf Gogledd Cymru sydd wedi ei gyflawni. Mae'r adeilad arloesol yn darparu cyfleusterau ar gyfer ymchwil, arloesi a chydweithio gyda myfyrwyr a busnesau.

Torrwyd rhuban yr adeilad gan Jack Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Ddiwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, cyn-fyfyriwr y Brifysgol.

Mae CanfodAu yn canolbwyntio'n benodol ar weithgynhyrchu uwch, deunyddiau cyfansawdd, integreiddio ag opteg, a thechnolegau hydrogen. Bydd hyn yn galluogi cyd-greu cynhyrchion a phrosesau newydd sy'n cyflymu datgarboneiddio a thrawsnewid diwydiannol.

Y nod yw sicrhau gwerth masnachol o ymchwil a datblygu drwy roi'r offer, yr arbenigedd a'r seilwaith sydd eu hangen i fusnesau lleol gystadlu'n fyd-eang.



Darganfod mwy

## LANSIO ACADEMI CROESO!

Mae cyfnod newydd i dwristiaeth a lletygarwch yng Ngogledd Cymru wedi'i nodi gyda lansiad Academi Croeso.

Gyda chefnogaeth Cynllun Twf Gogledd Cymru, mae'r prosiect yn bartneriaeth drawsnewidiol dan arweiniad Grŵp Llandrillo Menai. Ei nod yw mynd i'r afael â heriau hir sefydlog mewn recriwtio a sgiliau yn y sectorau twristiaeth a lletygarwch drwy sefydlu rhwydwaith unigryw 'Hwb a Lloeren'. Bydd hyn yn cysylltu campws Grŵp Llandrillo Menai yn Llandrillo-yn-Rhos â phartneriaid blaenllaw yn y diwydiant, gan gynnwys Zip World, Portmeirion, Theatr Clwyd, Snowdonia Hospitality & Leisure a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Cynhaliwyd y digwyddiad lansio yn Theatr Clwyd, gan ddod â chyflogwyr blaenllaw, addysgwyr, cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a'r DU - gan gynnwys Anna McMorrin, Gweinidog Swyddfa Cymru - ynghyd â phartneriaid cymunedol i ddathlu'r hunaniaeth newydd a'r weledigaeth ar y cyd y tu ôl i Academi Croeso.







Darganfod mwy

# CARREG FILLTIR
# CYSYLLTEDD CYNALIADWY

Ym mis Hydref, roedden ni'n falch o gyhoeddi bod Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi'i gymeradwyo'n swyddogol gan Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru. Mae hyn yn gam sylweddol ymlaen wrth ddarparu rhwydwaith trafnidiaeth diogel, cynaliadwy, fforddiadwy ac integredig ar draws y rhanbarth.

Datblygwyd y Cynllun mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol, Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae'n nodi gweledigaeth feiddgar i wella cysylltedd, lleihau dibyniaeth ar gerbydau preifat, a chefnogi twf economaidd cynhwysol.

Darganfod mwy a gweld  cynllun




## CROESAWU CYNLLUNIAU WYLFA A PHARTH TWF AI

Fel sefydliad sydd wedi ymrwymo i ddatblygu economi cynaliadwy yn y rhanbarth, rydym yn croesawu'r ddau gyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth y DU a fydd yn creu swyddi sgiliau uwch, ac o fudd i'n cymunedau.

Yn gyntaf, mae'r cynllun i leoli gorsaf bŵer niwclear newydd gyda'r adweithydd modiwlaidd bach cyntaf y DU yn Wylfa ar Ynys Môn yn newyddion cadarnhaol iawn. Mae'r safle mewn sefyllfa unigryw i ddarparu ynni glân, dibynadwy wrth greu miloedd o swyddi o ansawdd uchel - sydd mor bwysig mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith er mwyn helpu i warchod a chryfhau hunaniaeth ddiwylliannol leol.

Yn ail, newyddion am Barth Twf Deallusrwydd Artiffisial (AI) a fydd yn ymestyn ar draws y Fenai, gyda chanolfan yn Prosperity Parc ar Ynys Môn ac un arall yn Nhrawsfynydd yng Ngwynedd. Mae hyn yn golygu y bydd y rhanbarth yn elwa o'r chwyldro yn y sector - gan arwain at dwf economaidd cyflymach, yn hwb i ymdrechion ymchwil a datblygu lleol, ac yn cefnogi cwmnïau AI rhanbarthol.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid sector cyhoeddus a phreifat i yrru'r prosiectau hyn ymlaen er budd y rhanbarth.







## BUDDSODDIAD DEFAID LLAETH CYMRU

Mae economi wledig y rhanbarth ar fin elwa o fuddsoddiad o £3.5 miliwn gan Gynllun Twf Gogledd Cymru tuag at ddatblygiad £4.7 miliwn Defaid Llaeth Cymru. Dan arweiniad Grŵp Llandrillo Menai, bydd y prosiect yn sefydlu canolfan arloesi a phrosesu llaeth defaid fel rhan o Ganolfan Economi Wledig Glynllifon.

Gyda chefnogaeth y Cynllun Twf, £200k gan Grŵp Llandrillo Menai, a £1 miliwn ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, bydd y datblygiad yn darparu cyfleuster o'r radd flaenaf. Bydd yn cynnig godro defaid cynaliadwy, datblygu cynnyrch, hyfforddiant a chefnogaeth i fentrau ar gampws Glynllifon ger Caernarfon.



Mae Defaid Llaeth Cymru yn un o bedwar elfen allweddol o brosiect Canolfan Economi Wledig Glynllifon, sy'n rhan o fuddsoddiad ehangach o £19.2 miliwn a gefnogir gan y Cynllun Twf.

Defaid Llaeth Cymru
Dairy Sheep Wales

Darllen Mwy

## PODLEDIAD CRONFA YNNI GLÂN

Yn ddiweddar recordiwyd podlediad gyda Business News Wales yn canolbwyntio ar ein Cronfa Ynni Glân gwerth £24.6 miliwn. Fel rhan o Gynllun Twf Gogledd Cymru, bydd y gronfa'n cefnogi sefydliadau preifat a gwirfoddol i gyflawni prosiectau ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd ynni, storio a datgarboneiddio.

Cymerodd ein Rheolwr Rhaglen Ynni a Sero Net, Meghan Davies; Matt Popple o UMi - y busnes sy'n cyflawni'r gronfa sector preifat; ac Alun Jones o CGGC - y sefydliad sy'n cyflawni'r gronfa sector gwirfoddol, ran yn y drafodaeth.




Gwrandewch i ddarganfod mwy a darllen erthyglau gan westeion y podlediad - mae dolenni ar gael ar ein tudalen prosiect.

## GWEITHIO GYDA NI

Mae ein holl gyfleoedd recriwtio a chaffael ar ein gwefan, felly cofiwch gadw llygad arnom.

Darganfod mwy

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

## PENODI IS-GADEIRYDD

Yng nghyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd a'r Is-bwyllgor Lles Economaidd ym mis Tachwedd, etholwyd y Cynghorydd Jason McLellan, Arweinydd Cyngor Sir Dinbych, yn Is-gadeirydd ar gyfer 2025/26.

Mae manylion llawn am ein pwyllgorau a'n cyfarfodydd i'w gweld ar ein gwefan.



Darllen mwy

## SGYRSIAU YNNI ADNEWYDDADWDY

Cynhaliodd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru a Grŵp Llandrillo Menai, ddigwyddiad Bwrdd Crwn Sgiliau Ynni Adnewyddadwy yng Nghanolfan Beirianneg y coleg yn y Rhyl. Ymysg y mynychwyr roedd cyflogwyr, arbenigwyr, darparwyr addysg, Medr a chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru. Y nod oedd edrych ar y sgiliau sydd eu hangen i yrru Cymru tuag at Sero Net. Roedd y pwyslais ar gydweithio i adeiladu gweithlu sy'n gallu diwallu gofynion y sector. Cafwyd sgyrsiau hefyd gan brentisiaid a darparwyr hyfforddiant am y cyfleoedd sydd ar gael i ddatblygu sgiliau a phrentisiaethau.

Y neges glir o'r drafodaeth yw bod bylchau mewn sgiliau a hynny yn cynnwys mewn cyfathrebu a gallu Diwydiant 4.0 a meddwl trwy systemau. Mae heriau hefyd yn cynnwys recriwtio i swyddi adeiladu a pheirianneg fel weldwyr, trydanwyr a sgaffaldwyr; twf mewn AI i'r dyfodol; ac awtomeiddio a digideiddio. Mae'r digwyddiad wedi gosod sylfaen gref ar gyfer cydweithio parhaus i sicrhau bod sgiliau, hyfforddiant, a phrentisiaethau yn cyfrannu at Gymru gynaliadwy, a pharod ar gyfer Sero Net. Y gobaith yw dod â'r grŵp hwn yn ôl at ei gilydd eto i barhau â'r sgyrsiau hyn.

## GORWELION GWYRDD: HYRWYDDO SGILIAU'R DYFODOL



Yn ddiweddar, roedd ein Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn bartner allweddol yn nigwyddiad cyntaf Gorwelion Gwyrdd: Sgiliau'r Dyfodol a gynhaliwyd gan Menter Môn Morlais yn yr is-orsaf ger Caergybi. Daeth dros 150 o fyfyrwyr Blwyddyn 11 o ysgolion uwchradd Ynys Môn i'r digwyddiad – a'r nod oedd eu cyflwyno i gyfleoedd gyrfa mewn ynni adnewyddadwy, diwydiannau carbon isel, a'r economi werdd yn ehangach. Roedd y sesiwn yn gyfle i'r criw Ifanc gael profiadau ymarferol, ymweld ag arddangosfeydd rhyngweithiol, a siarad gyda chyflogwyr lleol.

Roedd partneriaid a noddwyr Gorwelion Gwyrdd yn cynnwys Gyrfa Cymru, Ystad y Goron, a Jones Bros Civil Engineering UK. Ariannwyd y digwyddiad yn rhannol gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU a chefnogaeth cyngor Sir Ynys Môn.



## CYDWEITHIO AR GYSYLLTEDD DIGIDOL

Efallai ei bod hi'n ymddangos sbel yn ôl erbyn hyn, ond mae data diweddar am ddarpariaeth digidol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam eleni yn gadarnhaol.

Mae'r wybodaeth yn dangos bod ymwelwyr wedi gwerthfawrogi cysylltedd symudol gwell diolch i ymdrechion ar y cyd rhwng Uchelgais Gogledd Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, a Gweithredwyr Rhwydwaith Symudol.

Gyda'n gilydd, roedd hi'b bosib hybu darpariaeth a chapasiti ar y safle, gan helpu miloedd i gadw mewn cysylltiad, rhannu atgofion, a gwneud y gorau o brofiad yr ŵyl.






Darganfod mwy

## LLWYDDIANT SPINFEST

Wrth i 2025 ddod i ben, mae'r tîm dal yn brysur yn codi arian ar gyfer ein elusen eleni, sef Canolfan Cefnogi Trais a Cham-drin Rhywiol (RASASC) Gogledd Cymru.

Yn ddiweddar trefnwyd Spinfest a gododd dros £1,500, gan ddod â'n cyfanswm hyd yma i dros £2,300! Daeth y digwyddiad â chyfranogwyr ynghyd am noson o ffitrwydd ac ychydig o hwyl cymunedol. Ni fyddai'r profiad ar gyfer achos mor deilwng, wedi bod yn bosib heb roddion hael gan fusnesau lleol:

- Oxygen Gym - darparu hyfforddwyr arbenigol i gadw'r egni'n uchel
- Canolfannau Hamdden Ffit Conwy - rhoi beiciau sbin ychwanegol
- Whites Removals o Abergele - cludo'r offer
- MAD Sound and Lighting Ltd - creu awyrgylch anhygoel
- House of Whey - cyflenwi byrbrydau protein maethlon
- Dan Evans Photography - cipio eiliadau cofiadwy
- Sara Jones Facepainting - ychwanegu lliw a sglein

Mae dal modd rhoi trwy JustGiving.





Darganfod mwy

Os hoffech dderbyn mwy o wybodeath am ein gwaith, cysylltwch â ni ar gwyb@uchelgaisgogledd.cymru neu ewch i uchelgaisgogledd.cymru